# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 5 EBRILL 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | J E C Harris |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ben George | Swyddog Strategaeth Trafnidiaeth |
| Claire Lewis | Rheolwr Datblygu Achos Busnes Prosiect Ysgol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Mark Wade | Rheolwr y Gwasanaethau Tai Cymunedol |
| Elliott Williams | Swyddog Rhaglen Cyllid Ewropeaidd ac Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child, C Richards a/ac R C Stewart

38 **ETHOL CADEIRYDD DROS DRO.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn Gadeirydd Dros Dro.

**BU'R CYNGHORYDD C E HALE (CADEIRYDD DROS DRO) YN LLYWYDDU.**

39 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddion canlynol:

Datganodd y Cynghorydd W Evans fudd personol yng nghofnod 41 - Cais i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol (cyswllt beicio Pontybrenin) - Cynghorydd Ward Pontybrenin.

Datganodd A S Lewis fudd personol yng nghofnod 41 - Cais i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/18 (Cysylltiadau Glan yr Afon Treforys) fel Cynghorydd Ward ar gyfer Treforys a budd personol a rhagfarnol yng nghofnod 42 - Trosolwg o'r ceisiadau presennol a'r rhai sydd ar ddod am gyllid Ewropeaidd ac allanol - Aelod y Cabinet a gymeradwyodd y cais. Gadawodd y Cynghorydd Lewis y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

Datganodd y Cynghorydd C E Lloyd fudd personol yng nghofnod 40 - Rhaglen Gyfalaf Dechrau'n Deg 2017-2018 - Llywodraethwr ysgol Gynradd St. Thomas a

chofnod 41 Cais i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/18 - Cynghorydd Ward ar gyfer St. Thomas.

40 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

41 **RHAGLEN GYFALAF DECHRAU'N DEG 2017-2018.**

Cyflwynodd Rheolwr Datblygu Achos Busnes Ysgol adroddiad i amlinellu'r cynnig cyfalaf sydd wedi'i gynnwys yn y cais am gyllid ychwanegol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o ran Rhaglen Gyfalaf Dechrau'n Deg 2017/18 ac i gadarnhau cyllid ACEHI a gymeradwywyd ar gyfer Dinas a Sir Abertawe.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cais cyfalaf Dechrau'n Deg 2017/18.

42 **CAIS I GRONFA TRAFNIDIAETH LEOL 2017/18.**

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth Trafnidiaeth adroddiad i gymeradwyo'r cais am gyllid o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/18.

Nododd fod pedwar cais â chyfanswm o £4.312 wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae'r symiau canlynol wedi cael eu rhoi ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno:

| | |
|---|---|
| Ffordd Fabian – Pont Baldwin | £541,000 |
| Cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | £364,000 |
| Gwelliannau i'r Coridor Bws Strategol | £115,000 |
| Cyswllt Pontybrenin | £73,000 |

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dyraniad dangosol o £18k i gefnogi'r gwaith sydd ei angen i gydymffurfio â dyletswyddau statudol Deddf Teithio Llesol (Cymru).

Cyfanswm = £1,221,000

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen cynnal mwy o drafodaethau mewn perthynas â goblygiadau refeniw sy'n codi o gymorth grant ar gyfer prosiectau cyfalaf ac ystyried bod ceisiadau cyllid yn y dyfodol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais i Gronfa Trafnidiaeth Leol 2017/18.

43 **TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM ARIAN EWROPEAIDD AC ALLANOL.**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol adroddiad i ddarparu manylion o'r cais am Gyllid Arbed Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru 2017-18 ar gyfer ardal adnewyddu Sandfields.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais am Gyllid Arbed Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru 2017-18 ar gyfer ardal Adnewyddu Sandfields.

44 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

45 **Y DIWEDDARAF AM GEISIADAU AM GYLLID ALLANOL.**

Rhoddodd y Swyddog Cyllid Ewropeaidd ac Allanol yr wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau presennol ac arfaethedig eraill am gyllid Ewropeaidd a chyllid allanol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhelliad i gefnogi'r cais i Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Llywodraeth Cymru 2017-2019, fel y'i amlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.47 pm

**CADEIRYDD**